Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ysbyty Annibynnol St David

### Dyddiad y gweithgarwch: 13 Awst 2020

Dyddiad cyhoeddi: 10 Medi 2020





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@gov.wales

Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80082-152-1

WG41024 (h) Hawlfraint y Goron 2020

# Cofnod o'r Canfyddiadau

## Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ysbyty Annibynnol St David fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith ansawdd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yn bodloni Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a rheoliadau perthnasol eraill. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Canolbwyntiodd y gwiriad ansawdd hwn ar bedwar maes allweddol: trefniadau COVID-19; yr amgylchedd; atal a rheoli heintiau; a llywodraethu.  Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig ar 13 Awst 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei leoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y cleifion ar yr adeg hon? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed i'r amgylchedd ffisegol, trefniadau ar y ward a gallu'r cleifion i fanteisio ar gyfnodau o absenoldeb o ganlyniad i COVID-19?

- Sut mae'r risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?

- O ystyried effaith COVID-19, sut rydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a sut mae hawliau'r cleifion yn cael eu diogelu?

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen?

## Trefniadau COVID-19

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19; pa newidiadau mae wedi'u gwneud i sicrhau y gall barhau i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gwnaethom adolygu

polisïau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Mae'r gwasanaeth wedi cynnal yr asesiadau risg angenrheidiol ac wedi diweddaru polisïau a gweithdrefnau perthnasol er mwyn bodloni gofynion ychwanegol pandemig COVID-19.

Cadarnhaodd y rheolwr fod mwy o lanhau yn digwydd a bod defnydd da yn cael ei wneud o gyfarpar diogelu personol (PPE), gyda digon o gyflenwadau a oedd yn cael eu monitro bob wythnos.

Roedd systemau a gweithdrefnau ar waith i nodi unrhyw staff neu gleifion a allai fod mewn perygl o ddatblygu, neu ddangos, symptomau COVID-19.

Rhoddwyd data inni ar gyfraddau heintio presennol ac ni fu unrhyw achosion a gadarnhawyd o COVID-19, nac unrhyw glefydau heintus eraill, ymhlith y staff na'r cleifion.

Cadarnhaodd y rheolwr fod y cleifion a'r staff wedi bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am COVID-19 yn rheolaidd mewn cyfarfodydd cymunedol a thrwy e-byst. Drwy gyfathrebu'n rheolaidd, sicrhawyd bod pawb yn cael y cyngor a'r canllawiau diweddaraf ar COVID-19.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau**.

## Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau a'r defnydd o ddulliau atal yn gorfforol ac arwahanu. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn y gofal a'r driniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cadarnhaodd y rheolwr fod y cleifion wedi gallu defnyddio canolfan ddydd ddynodedig yr ysbyty ar gyfer eu gweithgareddau, ynghyd â'r tir helaeth er mwyn cynnal eu hiechyd a'u llesiant. Hefyd, defnyddiwyd yr ardal awyr agored er mwyn i'r cleifion gwrdd â pherthnasau lle y bo'n briodol.

Nododd y rheolwr fod llechi wedi cael eu prynu er mwyn galluogi'r cleifion i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau.

Dywedwyd wrthym bod gallu'r cleifion i adael y lleoliad wedi’i gyfyngu yn ystod y

cyfyngiadau symud. Fodd bynnag, wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio, adolygwyd statws pob claf a'i ddiwygio er mwyn adlewyrchu'r newidiadau i ganllawiau'r llywodraeth. Mae'r staff wedi parhau i gynorthwyo'r holl gleifion i ymweld â'r gymuned yn ddiogel yn unol ag asesiadau risg a chynlluniau gofal a thriniaeth unigol.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisïau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom dystiolaeth o bolisi cyfredol ar gyfer atal a rheoli heintiau. Mae'r polisi wedi'i ddiwygio er mwyn adlewyrchu'r ffordd y caiff COVID-19 ei reoli a chaiff y staff wybod am unrhyw ddiweddariadau.

Cawsom wybod bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn asesu a rheoli'r risg o haint. Gwelsom dystiolaeth bod archwiliad rheoli heintiau wedi'i gwblhau'n ddiweddar a hefyd gwelsom dystiolaeth bod y cynllun gweithredu a ddeilliodd o'r archwiliad yn cael ei fonitro'n rheolaidd.

Rhoddwyd gwybodaeth inni am hyfforddiant rheoli heintiau a ddangosodd fod pob aelod o'r staff wedi'i gael.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

## Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC y ffordd y mae'r lleoliad yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen.

Hefyd, holwyd y lleoliad am y ffordd y mae, yn sgil effaith COVID-19, yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd gofal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac o ran diogelu hawliau'r cleifion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Er mai dim ond ers deufis y bu'r rheolwr yn ei rôl, roedd yn glir iawn ac yn wybodus iawn am ei rôl ac roedd ganddo ddealltwriaeth dda o'i gyfrifoldebau yn yr ysbyty.

Cadarnhaodd y rheolwr fod lefelau dibyniaeth y cleifion yn cael eu hasesu'n rheolaidd a bod staff ychwanegol yn cael eu defnyddio os oedd mwy o alw.

Cawsom wybodaeth am swyddi gwag a ddangosodd fod nifer mawr ohonynt o fewn y gwasanaeth (ar hyn o bryd - tair nyrs, wyth gweithiwr cymorth ac un therapydd galwedigaethol). Fodd bynnag, cadarnhaodd y rheolwr fod y lleoliad wrthi'n recriwtio a bod therapydd galwedigaethol newydd a nyrs banc gymwysedig wedi'u penodi'n ddiweddar. Parheir i recriwtio ar gyfer y swyddi gwag sy'n weddill. Byddai AGIC yn disgwyl gweld gwelliant parhaus o ran recriwtio ar adeg ein harolygiad nesaf o'r ysbyty.

Gan fod gan y gwasanaeth nifer mawr o swyddi gwag, gwelsom ei fod yn dibynnu'n fawr ar staff asiantaeth. Er mwyn darparu parhad gofal i'w gleifion a'i staff, mae'r rheolwr newydd wedi gwneud trefniadau gyda'r grŵp asiantaeth i ddefnyddio'r un staff asiantaeth ar gyfer sifftiau. Bydd y staff asiantaeth hyn yn cael sesiwn sefydlu, yr hyfforddiant perthnasol a goruchwylydd dynodedig.

Cawsom wybodaeth am hyfforddiant gorfodol a nodwyd bod 95% o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar bob pwnc gorfodol.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael eu cefnogi a'u goruchwylio bob dydd ac ar sail system oruchwylio 4 wythnos. Hefyd, cawsom wybod bod mwy na 70% o'r staff wedi cael arfarniad blynyddol, gyda chynlluniau ar waith i'r staff a oedd yn weddill gael eu harfarnu dros y misoedd nesaf.

Parhawyd i gynnal adolygiadau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac i fod mewn cysylltiad â gweithwyr proffesiynol allanol, gan gynnwys cymorth eirioli, drwy alwadau ffôn a fideo-gynadledda.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd amlddisgyblaethol, yn cynnwys gweithwyr proffesiynol allanol, wedi parhau a bod yr holl adolygiadau a drefnwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 wedi'u cynnal o fewn yr amserlenni rhagnodedig. Lle na fu modd cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb, defnyddiwyd galwadau ffôn a fideogynadledda i sicrhau bod y cleifion yn parhau i allu cael gafael ar wasanaethau proffesiynol allanol, gan gynnwys gwasanaethau eirioli.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriadau, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain isod:

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.